Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

# Nyrsio iechyd meddwl:

## proffesiwn y mae'n rhaid ei werthfawrogi

SAFE STAFFING SAVES LIVES
MAE STAFFIO DIOGEL YN ACHUB BYWYDAU

FAIR PAY FOR NURSING
TÂL TEG AR GYFER NYRSIO

# Crynodeb Gweithredol

Mae nyrsys iechyd meddwl yn gofalu am nifer o'r grwpiau mwyaf agored i niwed sydd wedi'u hymyleiddio yn ein cymdeithas – ac mae'n rhaid cydnabod a gwerthfawrogi hyn.

Mae nyrsio iechyd meddwl yn rôl amrywiol iawn sy'n darparu gofal cyfannol yn seiliedig ar werthoedd i unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr ym mhob grŵp oedran ac mewn amrywiaeth o leoliadau. Mae gan nyrsys iechyd meddwl set o sgiliau unigryw i ddiwallu anghenion y rhai sy'n wynebu gofid emosiynol beth bynnag yw diagnosis meddygol neu gyfansoddiad seicolegol yr unigolyn. Gall nyrsys iechyd meddwl arbenigo mewn gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol, gwasanaethau plant a phobl ifanc, salwch meddwl difrifol a pharhaus, gwasanaethau anhwylder bwyta, gwasanaethau diogel gan gynnwys y system cyfiawnder troseddol a lleoliadau carchardai, defnyddio sylweddau, ac yn gynyddol, pobl hŷn wrth i gyfraddau dementia gynyddu.

Mae gan nyrsys iechyd meddwl ddealltwriaeth gadarn o ddeddfwriaeth iechyd gan gynnwys Deddf Iechyd Meddwl 1983, Gorchymyn Iechyd Meddwl (Nyrsys) (Cymru) 2008 a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Mae gan nyrsys iechyd meddwl gyfrifoldebau cyfreithiol o ran cadw unigolion yn gyfreithlon. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'n glir, er mwyn gwneud hyn, bod yn rhaid i nyrsys fod wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) fel 'nyrs iechyd meddwl' neu 'nyrs anabledd dysgu'. Ni all nyrsys cofrestredig sydd wedi cael mynediad ym maes ymarfer nyrsio oedolion neu nyrsio plant ddefnyddio'r pŵer i reoli (neu gadw) hyd yn oed os ydynt yn gweithio mewn gwasanaethau iechyd meddwl neu anabledd dysgu. Mae pwysigrwydd cael nyrsys iechyd meddwl ym mhob lleoliad nid yn unig ar gyfer sicrhau gofal cleifion o ansawdd uchel ond hefyd o ran sicrhau, os oes angen i glaf gael ei reoli (neu'i gadw) oherwydd salwch meddwl, y gall bwrdd iechyd neu ddarparwr wneud hynny'n gyfreithlon. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) ar hyn o bryd yn rhoi gwybod i'r holl arweinwyr nyrsio ledled y DU, gan os na chedwir rôl statudol nyrsys iechyd meddwl ac anabledd dysgu mewn cynlluniau gweithlu yn genedlaethol ac yn lleol, gallai hynny effeithio ar hawliau cyfreithiol a diogelwch claf.

Mae diffyg buddsoddi ariannol mewn gwasanaethau cleifion mewnol a stigma yn parhau i fod ynghlwm wrth salwch meddwl difrifol a pharhaus, sydd wedi cyfrannu at anghydraddoldebau yn narpariaeth iechyd meddwl. Mae angen i hyn newid. Er mwyn gwneud hynny, mae angen buddsoddi arian i wella'r gweithlu nyrsio iechyd meddwl, ystadau ffisegol, a darpariaeth gwasanaethau.

Bydd y papur hwn yn sôn am atal, ond bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar ofalu am y rhai sy'n wynebu salwch meddwl difrifol a pharhaus, manteision nyrsio iechyd meddwl i bobl sydd angen gofal nyrsio arbenigol, a pherygl gwirioneddol o danbrisio'r proffesiwn nyrsio iechyd meddwl.

**SAFE STAFFING SAVES LIVES**
**MAE STAFFIO DIOGEL YN ACHUB BYWYDAU**

**FAIR PAY FOR NURSING**
**TÂL TEG AR GYFER NYRSIO**

# ARGYMHELLION

**1** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth glir ar gyfer buddsoddi yng ngwasanaethau iechyd meddwl diogel y GIG er mwyn gwella'r ddarpariaeth gofal i'r sawl sydd angen gofal seiciatrig acíwt a dwys.

**2** Mae angen i Addysg a Gwella Iechyd Cymru barhau i gyflwyno'r modiwl addysg Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc Arbenigol (CAMHS) Lefel 7.

**3** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol a thrylwyr o weithlu nyrsio iechyd meddwl, a'r gwasanaethau y mae nyrsys iechyd meddwl yn gweithio ynddynt i sicrhau y gall Cymru staffio gwasanaethau iechyd meddwl yn ddiogel ac yn gyfreithiol. Rhaid i hyn gynnwys adolygiad o nyrsys iechyd meddwl sy'n gweithio yn y GIG, awdurdodau lleol, carchardai a lleoliadau cyfiawnder troseddol, y sector preifat ac elusennau.

**4** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i gynyddu nifer y nyrsys iechyd meddwl cyn-cofrestredig a datblygu strategaeth recriwtio gynhwysfawr ar gyfer nyrsio iechyd meddwl sy'n pwysleisio ei gyfrifoldebau statudol

**5** Dylai byrddau iechyd nodi cynllun manwl o ran sut y byddant yn cefnogi nyrsys iechyd meddwl sydd newydd gymhwyso o 2023 i ddefnyddio eu sgiliau a'u gwybodaeth o ragnodi. Mae hyn yn cynnwys rheoli meddyginiaethau uwch, a llwybrau i ddod yn rhagnodwyr annibynnol a chefnogi'r gweithlu nyrsio presennol i ennill y sgiliau hyn.

**6** Mae'n rhaid i Addysg a Gwella Iechyd Cymru weithio mewn partneriaeth â byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd i ddatblygu llwybr gyrfa i nyrsys iechyd meddwl er mwyn datblygu eu gyrfaoedd i ymarferwyr nyrsio arbenigol ac uwch a nyrsys ymgynghorol. Dylai hyn fod yn rhan o ffrwd waith ehangach i ddatblygu strategaeth gadw ar gyfer nyrsio iechyd meddwl.

**7** Dylai Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru weithredu *Fframwaith ar gyfer Nyrsio Iechyd Meddwl 2018* Llywodraeth Cymru -2028 ochr yn ochr â strategaeth y gweithlu iechyd meddwl. Bydd hyn yn sicrhau bod pwysigrwydd nyrsio yn cael ei gydnabod.

**8** Er mwyn amddiffyn cleifion sy'n agored i niwed, dylai Llywodraeth Cymru nodi llinell amser ar gyfer ymestyn Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl.

Coleg Nyrsio Brenhinol
Cymru
Royal College of Nursing
Wales

## Ynglŷn â'r Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN)

Y Coleg Nyrsio Brenhinol yw'r sefydliad proffesiynol ac undeb llafur mwyaf yn y byd ar gyfer nyrsio, gan gynrychioli dros 465,000 o nyrsys, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymorth gofal iechyd a myfyrwyr nyrsio, gan gynnwys dros 26,000 o aelodau yng Nghymru. Mae aelodau'r RCN yn gweithio yn y sector annibynnol a'r GIG. Mae tua dwy ran o dair o'n haelodau wedi'u lleoli yn y gymuned. Mae RCN yn sefydliad ledled y DU, gyda Byrddau Cenedlaethol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
Mae RCN yn cynrychioli nyrsys a gwasanaethau nyrsio, yn hyrwyddo rhagoriaeth mewn ymarfer nyrsio ac yn llywio polisi iechyd a gofal cymdeithasol.

010 914

Mai 2023